# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 6 MAWRTH, 2013

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: E. Selwyn Griffiths a Jason Humphreys, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden) a Robert Owen, (Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**YMDDIHEURIADAU:** David McLean, (Buddiannau Perchnogion Tir) a Peter Lunt Williams, (Sefydliad Bâd Achub).

Yn ogystal, cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at ymddiheuriad Mr Ken Fitzpatrick, y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau. 'Roedd Mr Fitzpatrick wedi gobeithio gallu bod yn bresennol oherwydd ei fod yn ymddeol ym mis Awst eleni ac na fydd cyfle pellach iddo fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn.

Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod cyfraniad Mr Fitzpatrick i'r Gwasanaeth wedi bod o werth neilltuol.

Ategwyd y sylwadau yma gan y Cadeirydd ac aelodau eraill a dymunwyd yn dda i'r swyddog ar ei ymddeoliad.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2012, fel rhai cywir.

## 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyfeiriwyd at yr ymholiad a wnaed parthed parcio ceir yr anabl ar draethau ac ar diroedd yr Adran Forwrol.

Rhoddwyd sylw penodol i'r posibilrwydd o ganiatáu i'r anabl barcio am ddim ar Draeth Morfa Bychan. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y mater wedi cael ystyriaeth tua saith mlynedd yn ôl. Bryd hynny, penderfynwyd y byddai'n annheg i rai manteisio ar gyfle i osgoi taliadau ac na ddylid caniatáu unrhyw ostyngiad.

Ychwanegodd mai ffi mynediad oedd hwn yn hytrach na thâl am barcio ac nid oedd yn rhagweld y byddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno yn 2013.

Mynegwyd anfodlonrwydd gan rai aelodau a nodwyd bod rhai angen mynd i'r traeth am resymau meddygol.

Cyfeiriodd aelod at drefn a oedd yn bodoli yn y gorffennol pryd yr oedd trigolion lleol yn cael mynediad i'r traeth yn ddi-dâl. Awgrymodd y gellid ail-gyflwyno'r drefn yma neu o leiaf cyflwyno trefn fel bod peth o'r derbyniadau'n cael eu cyflwyno er budd y gymuned leol.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cyflwyno sylwadau yn y cyfarfod nesaf ar y ddwy egwyddor o:**
**a) ganiatáu i drigolion gael mynediad di-dâl i Draeth Morfa Bychan;**
**b) gyflwyno cyfran o'r ffi mynediad i'r traeth i gronfa er budd y gymuned leol**

**4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol :-

1) <u>Y Cwch Gwaith.</u>
Nodwyd bod y cwch gwaith, Y dwyfor, sef 'Aquastar 27', bellach ym Mhorthmadog ac yn gweithio oddi yno bron yn barhaol. Ychwanegwyd bod y cwch ei hun yn cael ei defnyddio ers 1994 ac y bydd angen ei adnewyddu yn y dyfodol agos pe bydd y gwasanaeth am barhau i gadw safon cymhorthion mordwyo harbwr Porthmadog.. Esboniwyd ymhellach fod angen i dri gweithiwr fod ar y cwch cyn y gellir ei ddefnyddio a bydd hyn yn creu anhawster yn dilyn ymddeoliad y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau ym mis Awst.

2) <u>Tŷ'r Drindod</u>
Nodwyd bod archwiliadau wedi eu cwblhau gan Dŷ'r Drindod a'u bod yn gyffredinol hapus hefo'r sefyllfa ym Mhorthmadog.

3) <u>Bwiau Parth Traethau</u>
Eglurwyd mai'r bwriad yw rhoi'r bwiau parth traethau allan ar draethau Morfa Bychan a Chricieth cyn dechrau mis Mai. Ymhellach, nodwyd y caiff ychydig o newid ei wneud o safbwynt lleoliad y bwi tramwy a bwi rhif 9.

4) <u>Cynnal Angorfeydd</u>
Atgoffwyd aelodau nad oedd yr angorfeydd wedi eu harchwilio'r llynedd, ond bod cwmni o Ddyffryn Ardudwy wedi eu penodi i wneud y gwaith eleni dan oruchwyliaeth yr Harbwr Feistr.

5) <u>Gwaredu a Diogelwch Tân Gwyllt – (fflachiadau)</u>
Nodwyd bod yna gost sylweddol o waredu'r tân gwyllt. Yn ystod yr wythnosau diwethaf talwyd £2,500 i'w gwaredu a phan mae angen tanio'r fflachiadau ar y safle, er sicrhau diogelwch, rhaid talu £100 y tro.
Ychwanegwyd bod rhaid cael 'storfa wedi ei thrwyddedu er mwyn cydymffurfio â'r rheolau.
Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd y byddai'n well darparu'r hyn sydd ei angen fel gwasanaeth yn hytrach na hawlio tâl er mwyn goresgyn peryglon.
Nododd aelod fod gwneuthurwyr ar hyn o bryd yn cydweithio ac efallai y byddant yn y dyfodol yn cymryd y fflachiadau yn ôl yn ddi-dâl.
Cytunwyd y dylid cymryd pob cam posib mewn ymdrech i sicrhau diogelwch a chadarnhawyd mai'r drefn yw dweud bod rhaid i'r fflachiadau gael eu dychwelyd i'r Harbwr Feistr.

6) <u>Ystadegau Morwrol</u>

Pwysleisiwyd bod yr ystadegau'n adlewyrchu'r sefyllfa economaidd bresennol a'r modd y mae hyn yn effeithio'n gyffredinol ar y Gwasanaeth. Nodwyd bod cyfanswm o 1169 o gychod pŵer wedi cofrestru yn 2011, a bod y cyfanswm wedi gostwng i 868 yn 2012.
Yn ogystal â'r sefyllfa economaidd, nodwyd bod pris tanwydd a'r tywydd difrifol wedi cael effaith andwyol ar y sefyllfa.
Ychwanegwyd mai 8 cwch pŵer yn unig lansiwyd o Forfa Bychan yn 2012 o'i gymharu â 29 yn 2011.
Gwelwyd sefyllfa debyg gyda'r badau dŵr personol, ac yn 2012 cofrestrwyd 86 yn Nhraeth Morfa Bychan o'i gymharu â 168 yn 2011.
Ychwanegwyd bod y Gwasanaeth wedi cysylltu gyda phob cwsmer eto eleni ond bod yr ymateb yn araf iawn.
Esboniwyd y caiff y cysylltiad yn cael ei wneud yn electronig, yn hytrach na thrwy lythyr, y flwyddyn nesaf er mwyn lleihau costau a bod yn fwy effeithiol.
Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar gyfer marchnata'r harbwr fel rhan o wefan y Cyngor. Ychwanegwyd bod Rheolau Corfforaethol yn golygu bod yn rhaid i'r cyhoeddusrwydd yma gael ei greu fel rhan o wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn ceisio cael lle blaenllaw i'r Gwasanaethau Morwrol o fewn gwefan y Cyngor.

7) Cyllidebau
Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad yn ymdrin â'r cyllidebau a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddo:-

- disgwylir y bydd yna danwariant o £11,000 ar yr elfen staffio yn Harbwr Porthmadog ;
- bod y tanwariant uchod yn seilio o'r ffaith na chyflogwyd staff llawn amser;
- bod yna gyllideb o dros £20,000 ar gyfer cynnal a chadw cyffredinol o ran y tir a'r harbwr ei hun.
- bod y gyllideb uchod yn cynnwys £12,000 o gyllideb amgen, ac nad yw felly'n adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Rhagwelir tanwariant oddeutu £9,500 ar y gyllideb yma, ond eisoes ymrwymwyd £8,000 ar gyfer cynnal a chadw angorfeydd a chynorthwyon mordwyo;
- bod angen darganfod £8,000 ar gyfer cael peiriannau i'r cwch harbwr;
- bod cyllideb o £10,000 ar gyfer offer a chelfi ond bod gorwariant o £2,500 yn cael ei ragweld;
- bod yna darged incwm o yn agos i £78,000 o safbwynt angorfeydd a lansio yn yr harbwr. Disgwylir y bydd yna danwariant o ychydig llai na £16,000 ym Mhorthmadog. O ystyried y gyllideb amgen byddai'r tanwariant yn £4,000 fyddai hefyd yn cynnwys y tanwariant o safbwynt staff;
- bod y sefyllfa gyffredinol yn dangos bod yna fuddsoddiad eithaf sylweddol yn cael ei wneud yn harbwr Porthmadog o safbwynt cynnal a chadw ac ansawdd.
- o safbwynt traethau rhagwelir y gellir adennill costau ar yr ymrwymiadau staffio. Ymhellach, disgwylir tanwariant o £11,000 ar gynnal a chadw tiroedd, tanwariant o £2,500 ar gostau cerbydau a gorwariant o £4,500 ar weddill o wasanaethau'r traethau.
- bod y gost o gasglu a gwaredu ysbwriel o'r traethau ynddo'i hun yn £140,000 rhwng 1 Ebrill a diwedd Medi;
- bod yna darged incwm traethau o bron i £200,000 a bod y tywydd anffafriol yn effeithio'n fawr ar hyn;
- bod unrhyw leihad yn yr incwm yn cael ei weld fel gorwariant, ac oherwydd hyn mae'n rhaid darganfod yr arbediad;
- pe byddai mwy na'r targed yn cael ei gasglu, byddai'r incwm ychwanegol yn cael ei fuddsoddi'n ôl i'r Gwasanaeth
- bod y cynllun o barthu'r harbwr wedi bod yn deg a llwyddiannus;
- bod ffioedd lansio wedi gostwng o £12 i £10 yn y gobaith o allu denu mwy i'r ardal.

8. Gwelliannau

Nodwyd bod y peiriant talu ac arddangos yn y maes parcio yng nghefn yr harbwr wedi profi'n llwyddiant gydag oddeutu £4,000 yn cael ei sicrhau i goffrau'r gwasanaeth. Er hyn gwrthodwyd cais i osod peiriant tebyg ym maes parcio Borth y Gest.

Gyda'r traeth ym Morfa Bychan, llwyddwyd i gadw trefn ar un mynediad yn ystod y gaeaf drwy gau Lôn Gwydryn. Yn ogystal cwblhawyd cynllun i ddymchwel yr hen adeilad a chodi toiledau newydd ar y traeth gyda chymorth grant o £150,000 o'r Cynllun Moroedd Gwyrdd.

Mae'n cynnwys paneli solar, ac adeiladwyd system garthffosiaeth dechnolegol newydd fel rhan o'r adeilad.

Yn gysylltiedig â hyn mae cais wedi ei gyflwyno i'r awdurdod perthnasol am wobr y Faner Las Ryngwladol. Pe bydd y cais yn llwyddiannus, yna dyma fydd y tro cyntaf i draeth Morfa Bychan y wobr.

Oherwydd Llwybr yr Arfordir, newidiwyd y parth cŵn ar y traeth a daw'r gorchymyn i rym ar 1 Ebrill. Bellach, bydd hawl gan y gweithwyr i ddirwyo rhai fydd yn gwrthod cydymffurfio gyda'r rheolau.

Ymhellach, cyfeiriwyd at y gwelliant cyson yn safon y dŵr ymdrochi yn Nhraeth Morfa Bychan.

9. Staff

Oherwydd bod y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau yn ymddeol ym mis Awst, penderfynwyd penodi cymhorthydd harbwr am gyfnod o chwe mis yn ychwanegol i'r tîm sydd ym Mhorthmadog yn barod.

Bwriedir gwneud hyn yn flynyddol yn y gobaith y gellir cynyddu'r cyfnod cyflogaeth yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at y modd y bu i'r gweithwyr osod 250 o byst mawr ar draeth Morfa Bychan er mwyn amddiffyn y twyni tywod. Gwnaed y gwaith o fewn ychydig ddyddiau a dyma'r drydedd ran o gynllun tair blynedd. Eisoes gwelwyd gwelliant sylweddol yng nghyflwr y twyni.

Pwysleisiodd y swyddog a'r aelodau fod gwaith cydwybodol aelodau'r staff yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

**Cyfarfod Nesaf**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 9 Hydref, 2013.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.45pm